



Adran Datblygu Ystadau

Côd Ymddygiad i Gontractwyr

Adran Datblygu Ystadau
Adeilad yr Arglwydd Milford, Plas Gogerddan
Aberystwyth, Ceredigion
SY23 3EB

Cyflwyniad

Darparwyd y ddogfen hon er mwyn rhoi gwybodaeth, manylion ac arweiniad ymarferol gyda'r bwriad o warchod iechyd a diogelwch gweithwyr y contractor a staff a myfyrwyr y Brifysgol ac unrhyw bersonal eraill yr effeithir arnynt gan yr hyn sy'n digwydd yn y Brifysgol. Mae'n berthnasol i'r unigolion, y cwmnïau a'r cyrff (ac unrhyw is-gontractwyr a benodir ganddynt) sydd dan gontract gyda'r Brifysgol i wneud gwaith o fewn i ystad Prifysgol Aberystwyth.

Mae Prifysgol Aberystwyth yn llwyr gefnogi amcan allweddol rheoliadau Adeiladu (Dylunio a Rheoli 2007 (CDM) i gyfuno iechyd a diogelwch gyda rheolaeth y prosiect ac i annog pawb sy'n ymwneud â'r prosiect i gydweithio.

Polisi Prifysgol Aberystwyth yw bod gofyn i Gontractwyr, cyn iddynt gael eu penodi, ddarparu achrediad trydydd parti o'u Systemau Rheoli Iechyd a Diogelwch, fel y rhai a roddir gan SAFE Contractor, CHAS neu rai cyffelyb a restrir o dan SSIP.

Nid yw'r ddogfen hon yn unigryw a dylid ei darllen ar y cyd â phob dogfen berthnasol arall a'r gofynion manwl a phenodol sydd wedi eu cynnwys yn y wybodaeth Dyfyniad / Tendr.

Yn y ddogfen hon ceir cyfeiriadau at y Person Cyfrifol. Y Person Cyfrifol yw'r prif gyswllt a enwebir gan Brifysgol Aberystwyth ar gyfer y prosiect / gwaith ac mae'r manylion cyswllt ar gael gyda phob manyleb. .

Mae Polisiâu a Gweithdrefnau Iechyd, Diogelwch ac Amgylcheddol cyffredinol y Brifysgol ar gael ar Wefan y Brifysgol, www.aber.ac.uk neu gellir eu cael o Uned Iechyd, Diogelwch ac Amgylcheddol Prifysgol Aberystwyth, yr Hen Goleg, Stryd y Brenin, Aberystwyth. SY23 2AX.

Ymrwymïadau Iechyd a Diogelwch Cyffredinol y Contractwr

- Cydymffurfio â'i ddyletswyddau cyfreithiol o dan Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974 a phob deddfwriaeth berthnasol a wnaed o dan y Ddeddf, yn arbennig y Rheoliadau CDM a Chodau Ymarfer cydnabyddedig eraill ac arferion da'r diwydiant er mwyn darparu amgylchedd gwaith diogel ac iach i'w weithwyr ac i eraill yr effeithir arnynt gan ei weithgareddau, ac i gydymffurfio â darpariaethau'r ddogfen hon.
- Sicrhau na fydd iechyd a diogelwch staff, myfyrwyr ac ymwelwyr gan gynnwys gweithwyr y contractwr a thrigolion adeiladau ac aelodau'r cyhoedd yn cael eu heffeithio er gwaeth gan y gweithgareddau y mae'n gyfrifol amdanynt.
- Cydweithredu gyda'r Brifysgol i reoli Risgiau Iechyd a Diogelwch sy'n deillio o'u gweithgareddau.
- Ymgymryd ag asesiadau risg addas a digonol yn achos pob gweithgarwch yn ymwneud â'r gwaith.
- Gweithredu systemau gweithio diogel bob amser.
- Darparu a chynnal offer a chyfarpar diogel.
- Sicrhau bod pob deunydd a ddefnyddir yn cydymffurfio â'r Safon Brydeinig berthnasol ddiweddaraf, a lle nad oes rhai eu bod o safon ddigonol i gydymffurfio ag ymarferion gwaith gorau'r diwydiant.
- Sicrhau bod sylweddau yn cael eu trafod, eu defnyddio a'u storio yn ddiogel.
- Darparu'r wybodaeth, cyfarwyddiadau, hyfforddiant a goruchwyliaeth i'w gweithwyr a sicrhau eu bod yn gymwys i wneud y gwaith a roddir iddynt. Rhaid i bob contractwr a'r sawl a gyflogir ganddynt fod yn gyfarwydd â'r rheolau diogelwch cyffredinol perthnasol i'r gwaith yr ymgwymerir ag ef.
- Darparu'r holl adnoddau angenrheidiol i sicrhau bod iechyd a diogelwch yn cael eu rheoli'n briodol.
- Darparu ar gyfer ei weithwyr y math o gyfarpar gwarchodol personol y gellir bod ei angen ar gyfer y gwaith e.e. cyfarpar i ddiogelu'r llygaid, y pen a'r traed ayyb.

Damweiniau, Iechyd ac Adrodd am Anafiadau, Afiechydon a Digwyddiadau Peryglus

Polisi'r Brifysgol yw sicrhau bod pob risg o ddamweiniau a gwaeledd yn y gwaith a achosir gan ei gweithgareddau yn cael eu gostwng.

Rhaid i'r Contractwr adrodd i'r Person Cyfrifol am bob digwyddiad neu achlysur peryglus sy'n digwydd ar safleoedd y Brifysgol boed hynny'n ymwneud yn uniongyrchol ag unrhyw un o weithwyr neu fyfyrwyr y Brifysgol neu beidio. Rhaid gwneud hyn yn syth. Rhaid pwysleisio bod hyn yn cynnwys pob anaf a ddigwydd i'w weithwyr neu ei is-gontractwyr. Am fanylion llawn am gyfreithiau cyfredol yn ymwneud ag adrodd am ddigwyddiadau cyfeirir y Contractwr at Reoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau a Digwyddiadau Peryglus 1995 (fel y'i diwygiwyd). Bydd y Brifysgol os tybir fod hynny'n angenrheidiol yn cynnal archwiliad llawn i unrhyw dro neu ddigwyddiad peryglus a ddigwydd ar safleoedd y Brifysgol.

Rhaid i'r Contractwr sicrhau bod ei weithwyr, ymwelwyr a rhai'r is-gontractwyr o dan ei reolaeth yn ymwybodol o'r hyn y dylid ei wneud mewn argyfwng.

Methiant Agos

Y diffiniad o 'fethiant agos' yw unrhyw ddigwyddiad neu achlysur nad yw'n achosi anaf na niwed i gyfarpar, oedd â'r potensial i achosi'r naill neu'r llall neu y ddau.

Polisi'r Brifysgol yw y bydd yn cefnogi adrodd am bob methiant agos fel budd positif i reolaeth iechyd a diogelwch. Mae adrodd am fethiannau agos yn darparu gwybodaeth hollbwysig ynglŷn â meysydd lle y gall rheolaeth ar iechyd a diogelwch fod yn annigonol. Bydd unrhyw adroddiad am fethiannau agos yn cael derbyniad positif.

Rhaid adrodd am fethiannau agos i'r Person Cyfrifol neu'r Cydlynnydd Iechyd a Diogelwch.

Lle mae'r sefyllfa yn un ddifrifol

Ewch at y ffôn agosaf a deialu'r Gwasanaethau Argyfwng i alw am ambiwlans. Rhowch leoliad y person sydd angen sylw. Sicrhawch gymorth swyddog cymorth cyntaf hyfforddedig y Contractwr ac os oes ambiwlans wedi ei galw, trefnwch i rywun ei chyfarfod. Neu, os oes cerbyd ar gael a'i bod yn ddiogel i symud y person a anafwyd ewch ag ef i Adran Damweiniau ac Acosion brys Ysbyty Bronglais.

Lle nad yw'r sefyllfa yn ddifrifol neu lle mae amheuaeth

Os bydd angen cyngor meddygol, cysylltwch â'r Porthor ar Ddyletswydd neu'r Rheolwr Neuaddau ac adroddwch am y digwyddiad wrth y Person Cyfrifol.

Y Contractwr sy'n gyfrifol am ddarparu cymorth cyntaf addas ar gyfer ei weithlu ac am sicrhau bod darpariaerh cymorth cyntaf gan yr is-gontractwyr hefyd.

Tân

Mae cyfarwyddiadau ar gyfer canu'r larwm, galw'r Frigâd Dân a gwagio'r adeiladau yn cael eu harddangos drwy holl adeiladau'r Brifysgol ac mae'n ofynnol i bob person ddilyn y cyfarwyddiadau hyn. Fodd bynnag, mae'r dull gweithredu cyffredinol canlynol yn berthnasol i'r holl adeiladau.

Os byddwch yn canfod tân

- Canu'r larwm tân agosaf.
- Pan glywant y larwm tân rhaid i bob person nad oes ganddo ddyletswyddau argyfwng penodol adael yr adeilad yn syth drwy'r allanfa agosaf.
- Sicrhau bod y Gwasanaethau Argyfwng wedi cael eu hysbysu, os nad ydych wedi gwneud hynny eisoes, gofyn i'r Cysylltydd am y Frigâd Dân a rhoi lleoliad y tân.
- Peidio â defnyddio'r lifftiau, gall y pŵer gael ei droi i ffwrdd.
- Peidio ag ymyrryd â phrif gyflenwad nwy, trydan na dŵr oni bai eich bod wedi eich awdurdodi i wneud hynny.
- Peidiwch ag ymladd yn erbyn y tân, gyda theclyn priodol, oni bai eich bod yn gallu gwneud hynny heb gymryd risg bersonol a'ch bod wedi eich hyfforddi i wneud hynny.
- Peidiwch â mynd yn ôl i fewn i adeilad oni bai i'r Frigâd Dân nodi ei bod yn ddiogel i wneud hynny.

Os byddwch yn clywed y larwm tân

Lle mae'n ddiogel i wneud hynny, dylai pob person sicrhau eu bod yn cyflawni'r gweithdrefnau canlynol mewn manau cyfagos:

- Diffodd peiriannau a phrosesau (cyfarpar y contractwr yn unig).
- Troi cyfarpar nwy i ffwrdd (cyfarpar y contractwr yn unig).
- Troi cyfarpar trydan i ffwrdd (cyfarpar y contractwr yn unig).
- Peidio â diffodd y golau.
- Cau ond peidio â chloi drysau.
- Gwagio'r adeiladau drwy gyfrwng yr allanfa agosaf heb oedi i gasglu eiddo personol.
- Ymgynnull yn y man a ddynodwyd fel y nodir ar y rhybudd Gweithredu Adeg Tân.

Os bydd gwaith contractwyr (e.e. codi llwch) yn achosi i larwm tân ganu ni ddylai'r contractwyr atal gwacáu'r adeilad.

Ni ellir datgysylltu, symud, adleoli neu wneud yn aneffeithiol unrhyw system larwm tân, canfod tân na chyfarpar ymladd tân heb ganiatâd y Person Cyfrifol. Bydd gofyn cael Caniatâd i Weithio fel arfer os bydd man am fod heb ei ddiogelu am gyfnod estynedig (i'w benderfynu gan y Person Cyfrifol). Ni ellir rhwystro, symud na pheri bod drws atal tân, allanfa dân na chaead tân yn annenfyddiadwy heb ganiatâd y Person Cyfrifol.

Ni all y Contractwr ddod â pheryglon tân anarferol i unrhyw fan heb hysbysu'r Person Cyfrifol yn gyntaf. Mae'r Contractwr yn gyfrifol am ddarparu'r math priodol o gyfarpar diffodd tân a dylai ymgynghori gyda'r Person Cyfrifol ynglŷn â chyfarpar o'r fath cyn rhoi cychwyn ar unrhyw waith.

Y Contractwr sy'n gyfrifol am ddarparu'r math priodol o gyfarpar diffodd tân yn y manau sydd dan ei reolaeth. Rhaid i'r Contractwr sicrhau bod y cyfarpar yn addas ar gyfer y gwaith a wneir a'i fod gweithio'n iawn.

Asesiadau Risg a Datganiadau Dull

Asesiadau Risg

Mae gofyn cael Asesiadau Risg ar gyfer pob gweithgarwch yn ymwneud â'r gwaith. Rhaid i Gontractwyr gynnal asesiad addas a digonol o'r risgiau i iechyd a diogelwch unrhyw weithiwr neu berson arall a allai gael ei effeithio gan unrhyw weithgarwch yn ymwneud â'r gwaith. Mae peryglon arbennig ar gael mewn rhai rhannau o'r Brifysgol a dichon y bydd gofyn cael cyfarwyddyd diogelwch gan y Person Cyfrifol cyn rhoi cychwyn ar unrhyw waith.

Sylwer: Mae gofynion statudol eraill ar gael yn achos rhai risgiau penodol, y mae i bob un ohonynt eu gofynion a'u fformat eu hunain ar gyfer asesiad risg. Rhaid i'r contractwr fod yn gyfarwydd â'r ddeddfwriaeth a'r rheoliadau perthnasol.

Pe bai unrhyw beryglon pellach yn dod i'r amlwg yn ystod bwrw ymlaen â'r gwaith e.e. darganfod deunyddiau amheus, rhaid cysylltu â'r Person Cyfrifol i ofyn ei gyngor yn syth.

Rhaid i bob asesiad risg fod yn ysgrifenedig a lle mae hynny'n angenrheidiol wedi ei ymgorffori yn nghynllun iechyd a diogelwch y prosiect, rhaid iddynt ddilyn y gofynion y manylir arnynt yn rheoliadau rheoli iechyd a diogelwch yn y gwaith a'r arweiniad pum cam a amlinellir yn yr HSE INDG 163.

Pum Cam tuag at Asesiad Risg– HSE INDG 163

<http://www.hse.gov.uk/pubns/indg163.pdf>

Rhaid i bob asesiad risg gael ei adolygu a'i ddiwygio gan y Contractwr fel mae hynny'n angenrheidiol i gynnwys unrhyw newidiadau yn y dull o weithio neu amgylchiad.

Bydd gan bob prosiect ei asesiad risg ei hun wedi ei addasu ar gyfer y lleoliad a'r amgylchiadau sy'n bodoli, nid yw defnyddio asesiadau risg parod yn dderbyniol na rhai a gynhyrchwyd o'r blaen heb iddynt gael eu haddasu ar gyfer agweddau unigryw y prosiect.

Cynnwys Anhepgor Asesiad Risg

- Adnabyddiaeth o bob perygl arwyddocaol y gellir yn rhesymol ei ragweld
- Adnabyddiaeth o'r sawl a allai gael ei niweidio (gweithwyr, staff, myfyrwyr ayyb.)
- Asesiad o'r risg yn sgîl pob perygl
- Adnabyddiaeth o fesurau rheoli a ddefnyddir i leihau neu i ddiddymu risg
- Enw'r person fydd yn gyfrifol am sicrhau bod y mesurau rheoli yn cael eu gweithredu

Datganiadau Dull

Cyn cychwyn gweithio, mae gofyn i'r Contractwr ddarparu Datganiadau Dull (Systemau Gweithio Diogel). Bydd pob system gweithio diogel yn cael ei chyflwyno mewn amser rhesymol i alluogi cydlyniant gwaith peryglus rhwng y Brifysgol a'r Contractwr. Dylai pob Datganiad Dull amlinellu'r peryglon dan sylw a chynnwys cyfarwyddyd cam wrth gam ar sut i wneud y gwaith yn ddiogel.

Cynnwys hanfodol Datganiad Dull

- Enw'r Cwmni a'r person sy'n cynhyrchu'r datganiad dull
- Disgrifiad cryno o'r gwaith sydd i'w gyflawni
- Disgrifiad o'r amgylchedd o gwmpas
- Dyddiadau ac amseroedd dechrau a chwblhau'r gwaith
- Rhestr o offer a chyfarpar a ddefnyddir yn ystod y prosiect
- Rhestr o'r gweithwyr a'r gouchwylwyr fydd yn gweithio ar y prosiect
- Cyfeiriad at y prif risgiau cysylltiedig â'r prosiect
- Methodoleg y gwaith
- Trefniadau Argyfwng
- Enw'r person fydd yn gyfrifol am sicrhau y cedwir at y datganiad dull
- Mae'n ofynnol bod pob gweithiwr sy'n rhan o'r prosiect wedi gweld a deall yr Aseiad Risg a'r Datganiad Dull. Rhaid i dystiolaeth o hyn fod ar gael (megis llofnodion y gweithwyr ar dudalennau'r Aseidiadau Risg a'r Datganiadau Dull).

Peryglon Arbennig

Ni ddylid dod â ffrwydrion, na sylweddau gwenwynig neu beryglus na deunyddiau ymbelydrol ar dir nac i adeiladau'r Brifysgol heb ganiatâd ymlaen llaw gan y Person Cyfrifol sydd yng ngofal y gwaith. Lle ceir caniatâd rhaid gwneud trefniadau i drafod a storio'r deunyddiau hyn yn ddiogel. Rhaid i bob deunydd o'r fath gael ei gludo, ei storio, ei ddefnyddio a'i waredu yn unol â rheoliadau cyfredol. Lle mae hynny'n bosibl, dylid osgoi amlygiad unigolion i ddeunyddiau o'r fath. Os nad yw hyn yn bosibl rhaid i'r amlygiad gael ei reoli'n ddigonol, gan gynnwys defnyddio unrhyw gyfarpar rheoli angenrheidiol.

Mae'r gyfraith yn mynnu bod cyflogwyr yn rheoli sylweddau sy'n peryglu iechyd. Mae gofyn i'r Contractwr gynnal a darparu asesiad COSHH.

Sylwer: Nid yw cadw copi o'r dalen data diogelwch yn asesiad COSHH.

Asbestos

Mae'n wybyddus neu mae'n debyg bod llawer o adeiladau'r Brifysgol yn cynnwys deunyddiau sydd ag asbestos ynddynt. Mae llawer o Reoliadau Iechyd a Diogelwch sydd yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol yn rhoi dyletswydd ar gyflogwyr mewn perthynas â diogelu gweithwyr a phreswylwyr eraill rhag asbestos mewn adeiladau.

Mae gwaith sy'n ymwneud ag asbestos a/neu ddeunyddiau eraill sy'n cynnwys asbestos yn cael ei reoli'n gaeth gan ddeddfwriaeth, Rheoliadau Rheoli Asbestos 2012 a chan bolisi Asbestos y Brifysgol a threfniadau ar gyfer y maes. Mae gan y Brifysgol gofrestr asbestos y mae'n rhaid ymgynghori â hi drwy'r Person Cyfrifol yn achos pob prosiect sy'n golygu gwaith ar ffabrig adeiladau'r Brifysgol neu gyfarpar a gwasanaethau cysylltiol. Os digwydd yn ystod y contract i'r gwaith darfu yn anfwriadol ar ryw asbestos cudd, rhaid i'r Contractwr atal y gwaith yn syth a symud ei weithwyr o'r fan ac adrodd am y digwyddiad wrth y Person Cyfrifol yn ddioed. Rhaid cynnal arolwg ailwampio a dymchwel Asbestos i unrhyw waith ailwampio, uwchraddio neu ddymchwel a ddigwydd ar eiddo'r Brifysgol.

Gellir dod o hyd i'r polisi Asbestos ar Wefan Adran Datblygu Ystadau y Brifysgol:
<http://www.aber.ac.uk/en/media/The-Control-and-Management-of-Asbestos.pdf>

Trwyddedau i Weithio

Rhaid defnyddio Trwyddedau i Weithio i reoli pob gweithgaredd risg uchel.

Bydd yr angen am Drwydded i Weithio wedi ei gynnwys ym manyleb y prosiect neu'r gorchymyn gwaith swyddogol. Bydd angen Trwydded i Weithio fel rheol cyn dechrau ar y categorïau canlynol o waith oni bai bod y gorchymyn swyddogol neu fanyleb y prosiect yn dweud yn wahanol:-

- Gweithio mewn mannau cyfyng (e.e. boeler/ystafelloedd offer)
- Gweithio ar doeon
- Gwaith Poeth
- Cloddfeydd
- Cyffredinol (unrhyw waith y mae asesiad risg yn mynnu ei fod angen Trwydded i Weithio)

Gwaherddir rhoi cychwyn ar unrhyw waith sydd angen trwydded nes bod Trwydded i Weithio wedi ei roi gan y Person Cyfrifol a'i arwyddo gan y Contractwr (neu bersonél awdurdodedig y contractwr). Rhaid dychwelyd y Trwydded i Weithio i'r Person Cyfrifol pan fydd y dasg arbennig wedi ei chwblhau a rhaid i'r Person Cyfrifol ei adlofnodi i dystio bod y gwaith angenrheidiol wedi ei gwblhau yn foddhaol.

Adolygiad Archwilio/Monitorio

Mae'r Contractwr yn gyfrifol am gynnal a monitro iechyd a diogelwch ar y safle. Bydd y Brifysgol yn archwilio o bryd i'w gilydd y systemau mae'r Contractwr yn eu cynnal i sicrhau iechyd, diogelwch a lles pawb.

Ymweliadau Awurdod Gorfodi

Rhaid rhoi gwybod am unrhyw ymweliad gan asiantaethau gorfodi i Berson Cyfrifol y Brifysgol mor fuan ag sy'n rhesymol ymarferol.

Telerau Contract

Bydd manylion Telerau ac Amodau'r Contract yn cael eu cynnwys yn y wybodaeth Dyfynbris / Tender. Os digwydd unrhyw wrthdaro uniongyrchol rhwng cynnwys y ddogfen hon a Thelerau ac Amodau'r Contract, rhaid i'r Contractor dynnu sylw Person Cyfrifol y Brifysgol at hynny cyn rhoi cychwyn ar unrhyw waith.

Dechreuad gweithrediadau safle

Ni chaiff y Contractwr ddechrau ar unrhyw waith ar adeiladau a thir Prifysgol Aberystwyth heb gael caniatâd ysgrifenedig y Brifysgol.

Rhaid cytuno ar ddyddiad dechrau a system ddiogel o weithio gyda'r Person Cyfrifol cyn i'r Contractwyr gyrraedd y safle. (Ewch i'r adran ar Asesu Risg am ragor o gyfarwyddyd ynglŷn â'r angen hwn).

Rhaid i Contractwyr adrodd i'r Person Cyfrifol cyn dechrau'r gwaith ar y safle.

Rhaid i'r Contractwr gadw Fforman/Uwch-weithiwr ar y lleoliad bob amser a bydd unrhyw gyfarwyddiadau a gyflwynir yn absenoldeb y Contractwr i'r Fforman/Uwch-weithiwr yn cael eu hystyried yn gyfarwyddiadau a roddwyd i'r Contractwr.

Rhaid i'r Contractwr gyflawni unrhyw amrywiadau a gwaith ychwanegol a archebir yn ysgrifenedig gan y Person Cyfrifol er mwyn cydymffurfio ag unrhyw fater yn ymwneud â iechyd a diogelwch..

Rhaid cael caniatâd gan y Person Cyfrifol i gael mynediad i adeiladau'r Brifysgol y tu allan i oriau gwaith arferol. Rhaid rhoi gwybod i Warchodwyr y Safle gan y Person Cyfrifol am waith sydd i gael ei wneud y tu allan i oriau gwaith arferol. Bydd y Person Cyfrifol llyn diffinio'r safle lle bydd y gwaith adeiladu hyn digwydd. Rhaid codi rhwystr neu ffens o gwmpas y fan er mwyn rhwystro pobl heb awdurdod i fynd i mewn. Os bydd angen gweithio y tu allan i'r fan, rhaid rhoi gwybod i'r Person Cyfrifol ac ni ddylai'r gwaith ddechrau nes bydd y Person Cyfrifol wedi cytuno.

Yn achos gwaith nad yw wedi ei gyfyngu i fan penodol (fel gwaith ailweirio) bydd angen cynhyrchu asesiadau risg penodol er mwyn dangos na fydd diogelwch personel sydd ddim yn adeiladwyr yn cael ei effeithio ac na fydd gweithgaredd adrannol yn cael ei darfu er gwaeth. Rhaid i fesurau rheoli canfyddadwy gynnwys rhybuddion a rhwystrau dros dro (megis ffensio pyst a chadwyn) lle mae hynny'n bosibl.

Rhaid i fannau o'r fath gael eu cylchynu a rhaid codi rhybuddion mewn safleoedd addas i rybuddio'r sawl sy'n defnyddio'r adeilad o'r manau gweithio.

Mae Contractwyr yn gyfrifol am ddarparu ac arddangos arwyddion diogelwch sy'n angenrheidiol o ganlyniad i'r gwaith sy'n mynd rhagddo. Dylai manylebau'r arwyddion gydymffurfio gyda deddfwriaeth gyfredol.

Ni ddylai Contractwyr ymyrryd â na chysylltu â thrydan, nwy, dŵr neu un o wasanaethau eraill y Brifysgol heb ganiatâd penodol y Person Cyfrifol.

Nid oes unrhyw gyfarpar 240 folt i'w ddefnyddio ar gyfer gwaith adeiladau/cynnal a chadw.

Lle yn unol ag unrhyw rwymedigaeth gytundebol mae gofyn i unrhyw osodiadau neu ffitiadau aros rhaid iddynt gael eu hailosod gan y Contractwr pan fydd yn cwblhau'r gwaith a rhaid i'r Contractwr sicrhau bod ffitiadau neu osodiadau o'r fath yn ddiogel ac yn cydymffurfio ag unrhyw safonau priodol.

Mynediad Cyffredinol

Lle mae hynny'n bosibl, rhaid i bob ffordd gael ei chadw yn glir ar gyfer traffig arferol y Brifysgol ac ni ddylai unrhyw gerbydau sefyll arnynt yn hwy na'r hyn sydd yn gwbl angenrheidiol. Ni chaniateir parcio cerbydau preifat sy'n perthyn i'r Contractwr, ei is-gontractwyr neu ei weithwyr ar unrhyw un o ffyrdd y Brifysgol. Dylid bod yn arbennig o ofalus wrth dderbyn cyflenwadau ac wrth ddadlwytho deunyddiau.

Ni ddylai cerbydau'r Contractwr gael eu parcio ar balmentydd neu ar bwys cyrbiau isel (yn arbennig i rwystro creu problemau i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn a cherddwyr gwan eu golwg).

Ardal Waith /Mynediad Safle

Mae Contractwyr yn gyfrifol am ddiogelwch offer, peiriannau a deunyddiau adeiladu sy'n cael eu dwyn i adeiladau a thir y Brifysgol i'w defnyddio ar gyfer y gwaith y contract.

Cyfyngir y Contractwr i ardal y gwaith ar gyfer cyfleusterau'r safle a storio deuyddiau, oni bai bod cytundeb gwahanol i hynny.

Rhaid i ardaloedd y safle gael eu ffensio neu rhaid cymryd camau effeithiol eraill i rybuddio a rhwystro personau a allai gael eu peryglu gan y gwaith neu wrth fynd i ardal y safle, a pheri iddynt gadw draw. Rhaid i ardaloedd y lleoliadau gael arwyddion eglur yn nodi unrhyw beryglon posibl a'r awdurdodiad sy'n rhaid ei gael i fynd i mewn iddynt.

Mae llawer iawn o gerdded ar rai rhannau o'r campws wedi nos (megis Canolfan y Celfyddydau, Adeilad Undeb y Myfyrwyr a llwybrau troed sy'n arwain atynt). Mae'r risgiau uwch yn ystod y nos yn y manau hyn yn golygu bod yn rhaid ymarfer gofal ychwanegol (megis symud llithrenni gwastraff ar ddiwedd y diwrnod gwaith). Bydd y Person Cyfrifol yn tynnu sylw at y manau hyn sy'n rhaid eu hystyriedd yn ystod y broses asesu risgiau.

Rhaid i holl weithwyr y Contractwyr, eu His-gontractwyr ac ymwelwyr â'r Lleoliad (yn cynnwys staff Datblygu Ystadau'r Brifysgol a Gwasanaethau'r Campws) adrodd i'r Rheolwr Lleoliad ac arwyddo ar eu ffordd i mewn ac ar y ffordd allan.

Lle mae gwaith i'w wneud mewn rhannau o adeilad sy'n cael ei ddefnyddio rhaid cymryd gofal ychwanegol a dylai Rheolwr/Gofalwr yr adeilad gymryd rhan yn y trefniadau cynllunio, gan gynnwys asesiad risg.

Sefydlogrwydd

Nid yw'r Contractwr heb ganiatâd ysgrifenedig pendant y Person Cyfrifol i adael i unrhyw beth gael ei wneud i niweidio sefydlogrwydd yr adeilad presennol a allai beryglu iechyd a diogelwch unrhyw unigolyn. Bydd y Contractwr yn gyfrifol am bob difrod a all ddigwydd oherwydd diogelwch neu esgeulustod yn hyn o beth.

Cyflwyniad i'r Lleoliad

Rhaid i'r Contractwr sicrhau bod pawb sy'n ymweld â'r Safle, gan gynnwys gweithwyr, yn derbyn cyflwyniad priodol a'u bod o leiaf yn ymwybodol o'r canlynol; peryglon presennol, manylion sut i ymddwyn mewn argyfwng, lleoliad cyfarpar cymorth cyntaf, enwau personel sydd wedi eu hyfforddi ac unrhyw gyfarpar gwarchod personol.

Offer, arfau a chyfarpar

Rhaid i bob offer, arfau a chyfarpar a ddefnyddir gan y Contractwr yn adeiladau neu ar dir y Brifysgol fod yn ddiogel ac yn gymwys ar gyfer y gwaith ac wedi ei gynhyrchu i gydymffurfio ag unrhyw safonau cyfreithiol a'i gadw yn unol â hynny. Dim ond pobl sydd wedi eu hyfforddi i'w defnyddio a ddylai eu trin a'u defnyddio a rhaid i bersonel fod yn gymwys i gyflawni'r hyn y gofynnir iddynt ei wneud.

Ni chaniateir defnyddio cyfarpar neu beiriannau petrol (e.e. torrwr disg a yrrir gan betrol, generaduron trydan ayyb.) y tu fewn i adeiladau neu mewn unrhyw fan amgaaedig arall. Mae'r gwaharddiad hwn yn cynnwys cyfarpar arall tebyg sy'n cael eu gyrru gan danwydd megis disel neu LPG.

Cyfaddasrwydd Personel

Rhaid i'r Contractwr fod yn fodlon ar gyfaddasrwydd a chymhwysedd pob person a gyflogir i weithio ar y safle. Rhaid i bawb sy'n gweithio ar ran y Contractwr fod yn gymwys.

Mae Prifysgol Aberystwyth yn cadw'r hawl i gael gwarded o weithiwr neu asiant i'r Contractwr oddi ar y safle a'r prosiect, oherwydd diffyg perfformio neu gamymddwyn.

Niwsans

Rhaid i'r Contractwr cyn belled â bod hynny'n rhesymol bosibl, sicrhau bod swm, digryndod, llwch, mwg a phob niwsans arall yn cael eu cadw mor isel ag sy'n bosibl drwy gydol y contract. Dichon y bydd yn rhaid gwneud trefniadau arbennig yn achos gweithrediadau arbennig o swmlyd neu berygl.

Ni ddylid defnyddio radios na mathau eraill o gyfarpar adloniant clywedol tra'n gweithio ar leoliad y Brifysgol.

Rhaid i'r Contractwr cyn belled â bod hynny'n rhesymol ymarferol sicrhau bod yr holl wasanaethau i'r adeilad yn dal i weithio drwy gydol y contract, gan gynnwys dŵr, trydan, nwy a hefyd draeniad, larymau a thelathrebu.

Am resymau gweithredol y Brifysgol ni ellir gweithio yn ystod rhai digwyddiadau e.e. Dyddiau Agored/Ymweld, Seremonïau Graddio ayyb. heb ganiatâd ysgrifenedig y Person Cyfrifol.

Gwarchod y Safle

Ni ddylid gadael peryglon yn agored a dylid gwneud unrhyw waith yn ddiogel nes bydd wedi ei gyflawni.

Mae'r Contractwr yn gyfrifol am ddarparu pob gwarchodaeth angenrheidiol i osodion, fitiadau, gorffeniadau a gorchuddion lloriau mewnol ac allanol yn ystod y gwaith ac i atgyweirio unrhyw arwynebau a ddifrodwyd wrth gwblhau'r gwaith.

Gwaredu Gwastraff

Mae Contractwyr yn gyfrifol am gael gwarded yn briodol o'r holl wastraff sy'n cael ei greu gan ac yn ystod y gwaith. Yn arbennig, ni ddylai Contractwyr ollwng unrhyw gemegolion, olew neu ddeunydd gwastraff arall i draeniau yn adeiladau'r Brifysgol (gan gynnwys golchi pridd, sment neu rwbel arall i draeniau). Rhaid symud pob deunydd adeiladau a gwastraff o'r safle ar ddiwedd y contract (yn amodol ar unrhyw gytundeb cytundebol i'r gwrthwyneb) a lle mae'r gwastraff yn cael ei gyfrif yn beryglus, yn cael ei waredu i gontractwr gwastraff trwyddedig. Rhaid i'r Contractwr gydymffurfio â'r holl ddyletswyddau a osodir arno gan ddeddfwriaeth berthnasol.

Ni ddylid rhoi unrhyw wastraff sy'n deillio o'r gwaith ym miniau ysbwriel, biniau olwyn ayyb. y Brifysgol.

Rhaid cytuno ar leoliad a deunydd sgipiau ar dir y Brifysgol gyda'r Person Cyfrifol. Rhaid i unrhyw sgipiau a ddefnyddir gan Gontractwr fod â chaeadau neu ddrysau cloedig arnynt os oes unrhyw ddeunydd hylosg yn cael ei adael ynddynt dros nos. Yn gyffredinol ni ddylid lleoli sgipiau ar bwys adeiladau.

Rhaid i bob gwaith dymchwel a datgymalu gael ei wneud yn unol â deddfwriaeth gyfredol, cyfarwyddyd ac arfer gorau. Rhaid i bob lleoliad dymchwel gael ei ffensio neu rhaid cymryd camau i rybuddio neu i rwystro pobl a allai gael eu peryglu gan y gwaith rhag dod yn agos.

Lle mae hynny'n addas bydd gofyn i'r Contractwr sicrhau ei fod yn cydymffurfio ag unrhyw rwymedigaethau sydd arno o dan Reoliadau Gwastraff (Lloegr a Chymru) 2011

Cyswllt / Cyfarfodydd / Cofnodion

Bydd y Contractwr drwy gydol parhad y gwaith yn cyfathrebu gyda'r Person Cyfrifol.

Bydd y Contractwr yn darparu ar gyfer pob rheolaeth a gweinyddiaeth ar neu ddim ar y lleoliad gan gynnwys taliadau sefydlu.

Bydd gofyn i'r Contractwr fynychu cyfarfod cyn-cychwyn cyn dechrau gweithio ar y safle.

Bydd y Contractwr yn caniatáu crwydro o amgylch y lleoliad i weld cynnydd yn y gwaith lle mae fforman/rheolwr safle yn mynd gyda'r Person Cyfrifol, yn ychwanegol at gyfarfodydd rheolaidd gyda Thîm y Prosiect a gynhelir mewn lleoliad y cytunir arno. Bydd parhad y crwydro a'r cyfarfodydd yn cael eu cytuno arnynt ar ddechrau pob prosiect.

Cofnodion

Bydd y Contractwr yn cadw cofnodion fel sy'n addas o'r gweithgaredd ar y lleoliad. Dyddiadur lleoliad yn arbennig, a fydd ar gael i'w archwilio, cofnodion dyddiol, adnoddau a llafur ar y safle, digwyddiadau ar y safle (tywydd, amhariadau, cyflenwadau pwysig, gwaith a orchuddir, nifer ar y safle ar gyfer pob crefft ayyb.).

Rhaid i'r Contractwr drefnu bod ffotograffau o gynnydd y gwaith yn cael eu tynnu'n rheolaidd. Bydd ffotograffau yn cofnodi'r holl weithgarwch a byddant wedi eu dyddio'n digidol. Rhaid rhoi sylw arbennig i unrhyw fannau fydd o'r golwg ar ôl hynny.

Rhaid i unrhyw osodiad neu addasiad gwasanaethau tan y ddaear gael eu cofnodi'n fanwl gywir ar gynlluniau'r lleoliad (yn ogystal â ffotograffau). Rhaid tynnu sylw'r Person Cyfrifol yn ddioed at unrhyw wasanaethau tan y ddaear nad ydynt wedi eu nodi ar gynlluniau'r safle y deuir ar eu traws wrth gloddio.

Cofnodi

Bydd gofyn i'r Contractwr ddarparu Adroddiadau a Dogfennau y cytunir arnynt ymlaen llaw yn ystod parhad y prosiect fel y nodir isod:

Rhaglen y Contract

Cyn dechrau'r gwaith bydd gofyn i'r Contractwr gyflwyno rhaglen fanwl o weithgareddau arfaethedig, yn dangos pob gweithgaredd sy'n angenrheidiol i gyflawni'r contract, gan gynnwys dyddiadau Dechrau a Gorffen.

Bydd y rhaglen yn cael ei diweddarau i ddangos cynnydd yn ôl y galw..

Pythefnosol

Diweddariad cynnydd prif raglen y contract yn cynnwys crynodeb o'r gwaith a gwblhawyd yn ystod y cyfnod o ddwy wythnos flaenorol ac adroddiad yn edrych ymlaen ddwy wythnos yn dynodi'r gwaith sydd i'w wneud. Dylid cyfeirio'n benodol yn yr adroddiad at unrhyw faterion neu bryderon yn ymwneud ag lechyd a Diogelwch.

Adroddiad Llif Arian

Cyn dechrau'r prosiect bydd gofyn cyflwyno a chytuno ar adroddiad yn dadansoddi'r llif arian yn fanwl. Dylid cyfeirio'n benodol yn yr adroddiad at gostau cydymffurfio ag unrhyw oblygiadau lechyd a Diogelwch fel y cyfeirir atynt mewn man arall yn y ddogfen hon. .

Rheoli Ansawdd

Bydd y Contractwr yn gweithredu system Rheoli Ansawdd ar y safle, un y bydd manylion amdani yn cael eu darparu gan y Person Cyfrifol cyn i waith fynd rhagddo.

Bydd gan y Contractwr gofrestr ganolog o'r holl faterion ansawdd sy'n dod yn sgîl y prosiect a bydd yn ei chynnal ac yn ei chyhoeddi'n rheolaidd. Bydd hon yn cael ei diweddarau'n wythnosol ac yn nodi'r canlynol: ID, dyddiad codi, mater, a ystyrir gan y Contractwr bod hyn yn berthnasol i'r contract, cychwynnydd, statws (agored, caeedig), dyddiad gweithredu a dyddiad cau. Rhaid i'r cychwynnydd fod â rhan yn y penderfyniad i derfynu eitem.

Methiant i Gydymffurfio

Os bydd y Contractwr yn methu â chydymffurfio â'r rhain neu ag unrhyw gymal arall yn y Fanyleb o fewn yr amser y cytunwyd arno, gall y Person Cyfrifol, ar ran y Cyflogwr, gyflogi pobl eraill i wneud y gwaith hwnnw ar gost y Contractwr.

Nwyddau

Nid oes unrhyw ddanfoneb i'w harwyddo ar y safle gan neb ond y Fforman /Uwchweithiwr, a ddylai bob amser archwilio'r holl nwyddau a ddanfonwyd cyn derbyn eitemau o'r fath a bod yn abl i warantu eu hansawdd. Mewn achosion pan mae nam ar y nwyddau a anfonwyd, bydd y Contractor yn adrodd wrth y Person Cyfrifol neu berson awdurdodedig a gall yntau archwilio'r nwyddau os tybir bod hynny'n angenrheidiol.

'Snagio'

Mae'r Brifysgol yn gweithredu polisi dim 'snags' y mae pob parti yn gytun arno. Er hynny, bydd gofyn i'r Contractwr gychwyn a chynnal system ar gyfer cofnodi pob eitem nad yw'n cydymffurfio, gan nodi'r dyddiad y'i codwyd, cychwynnydd, dyddiad i'w adfer a statws (agored/caeedig) ynghyd â llythrennau cyntaf enw'r cychwynnydd i gadarnhau bod yr eitem wedi cael sylw boddhaol. Bydd y Contractwr yn archwilio'r gwaith am ddiffygion cyn ei gynnig i'r Person Cyfrifol i fwrw golwg drosto; fodd bynnag rhaid i unrhyw eitem y bydd unrhyw barti yn tynnu sylw ati gael ei chynnwys yng nghofrestr y Contractwr i'w hystyried.

Gwaith Anghyflawn

Nid yw unrhyw waith sydd heb ei gwblhau erbyn yr amser Cwblhau Ymarfeol yn cael ei hystyried yn 'snag' a rhaid ei restru fel rhan o'r broses Trosglwyddo.

Diffygion

Diffygion yw eitemau y sylwir arnynt ar ôl y Cwblhau Ymarferol a bydd rhestr yn cael ei chadw gan y Person Cyfrifol..

Iechyd a Diogelwch; bydd eitemau y mae gofyn iddynt gydymffurfio'n gyfreithiol a rhai fydd yn effeithio ar breswiliad adeiladau yn cael eu hystyried yn achosion brys a bydd gofyn i'r contractwr roi sylw iddynt yn syth.

Gellir grwpio eitemau eraill a chytuno ar restr o waith. Drwy'r amser Cyfnod Atebolrwydd am Ddiffygion bydd gofyn i'r Contractwr gymryd rôl arweiniol, ragweithiol wrth adfer diffygion, a phenodi Rheolwr unsydd i gwblhau'r dasg.

Comisiynu

Rhaid i'r Contractwr Trydanol a Mecanyddol gomisiynu pob eitem o offer, peirianwaith, cyfarpar a systemau dosbarthu yn llawn.

Bydd gwasanaethau adeiladu yn cael eu comisiynu yn unol ag anghenion y gwneuthurwr a chodau ymarfer Sefydliad Siartredig y Gwasanaethau Adeiladu.

Bydd cyfarpar comisiynu yn cael ei raddnodi'n briodol yn unol â'r Safon Brydeinig berthnasol a bydd ganddo dystysgrif cydymffuriad cyfredol.

Trosglwyddo

Pan fydd y gwaith wedi cyrraedd y cyfnod cwblhau bydd y Contractwr wedi paratoi ymlaen llaw i gyfarfod gyda'r Person Cyfrifol er mwyn archwilio a chymeradwyo'r gwaith.

Yn ystod y cyfarfod hwn bydd y Contractwr yn trosglwyddo i'r Person Cyfrifol yr holl ddogfennau fel sy'n ofynnol o dan y Contract.

Rheoliadau Traffig a Pharcio

Rhaid i'r Contractwr, ei weithwyr a'i is-gontractwyr bob amser y maent ar y safle gydymffurfio â Rheoliadau Traffig a Pharcio Prifysgol Aberystwyth. Gellir gweld y rhain yn:

www.aber.ac.uk/en/campus-services/car-parking